
# CADW PELLTER CYMDEITHASOL




Ffynhonnell: [Google COVID-19 Community Mobility Reports]
Data ar 04/08/20

# DANFON PARSELI BWYD

**Archebion parseli bwyd a wnaed gyda chyflenwyr:**

- **13,268** hyd at 8 Awst


**Nifer y danfoniadau y ceisiwyd eu gwneud:**

- **201,210** hyd at 7 Awst
- **99%** wedi'u rhoi i breswylydd neu eu gadael ar garreg y drws
- **18,702** ohonynt yn ddanfoniadau cyntaf llwyddiannus*

* uwch na'r cyfanswm archebion mwyaf diweddar am fod rhai pobl wedi gofyn i ganslo'r danfoniadau ar ôl derbyn un neu fwy o barseli bwyd

[Cefndir pellach ar barseli bwyd i'r rhai sy'n agored iawn i niwed]

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru
Data ar 07/08/20



# Y GRONFA CYMORTH DEWISOL


Rhwng 18 Mawrth a 6 Awst:

## Gwnaed **52,517** o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng yn ymwneud â COVID-19, gwerth cyfanswm o **£3,247,373**

Dechreuwyd cofnodi ar 18 Mawrth. Mae'r rhesymau cysylltiedig â COVID-19 y mae ymgeiswyr yn eu rhoi yn cynnwys: Gorfod rhoi'r gorau i weithio neu leihau gwaith; Oedi o ran hawlio budd-dal; Costau ynni/bwyd uwch (teulu gartref)

Yn dilyn cyhoeddiad 1 Mai o fwy o gyllid, bydd ceisiadau'n cael eu trin â mwy o ddisgresiwn a hyblygrwydd, wrth ddelio â hawliadau caledi COVID-19

Cefndir pellach i'r CCD




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru
Data ar 06/08/20


# CYMORTH I FUSNESAU

Mae awdurdodau lleol wedi prosesu **64.3k** dyfarniad gwerth cyfanswm o **£765m** ar gyfer y grant ardrethi busnes Covid-19.

Mae **Banc Datblygu Cymru (DBW)** wedi dyrannu bron **i £100 miliwn i fwy na 1,200 o fusnesau**.

Yng ngham 1 y Gronfa Cadernid Economaidd, derbyniwyd **6,946** dyfarniad grant ar gyfer microfusnesau a busnesau bach a chanolig yn cyrraedd cyfanswm o **£124.4m.** Yng ngham 2 y Gronfa Cadernid Economaidd, derbyniwyd **4,607** dyfarniad grant ar gyfer microfusnesau a busnesau bach a chanolig yn cyrraedd cyfanswm o **£53.5m**

Rhagor o gefndir ar Cymorth i Fusnesau.




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Data ar ardrethi busnes fel yr oedd ar 06/08/20
Data Banc Datblygu Cymru fel yr oedd ar 09/07/20
Noder: Data ERF ar 06/08/20

# CRONFA YMATEB COVID-19 Y TRYDYDD SECTOR

**Cronfa Cadernid y Trydydd Sector**

Yn darparu cymorth ariannol uniongyrchol i sefydliadau yn y trydydd sector sydd angen help i ymdopi â'r argyfwng hwn er mwyn talu eu biliau a lliniaru problemau llif arian.

- Mae **76 o geisiadau** wedi'u cymeradwyo a **£3.18M wedi'i dalu** drwy gronfa cadernid y trydydd sector.

**Cronfa Argyfwng Gwasanaethau Gwirfoddol**

Yn cefnogi sefydliadau'r trydydd sector yn y gymuned sy'n cydgysylltu'r ymateb yr ydym wedi'i weld ar draws Cymru i'r cais am wirfoddolwyr, gan eu helpu i dalu treuliau personol eu gwirfoddolwyr.

- Mae **154 o geisiadau** wedi'u cymeradwyo a **£6.84M wedi'i dalu** drwy gronfa argyfwng y gwasanaethau gwirfoddol.

Rhagor o gefndir i Gronfa Ymateb Covid-19 y Trydydd Sector

Ffynhonnell: Gwirfoddoli Cymru
Data ar 07/08/20